24-01 (10)

**Eitem:** 14

**Teitl:** Fframwaith sgiliau a rhaglen dysgu a datblygu

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I nodi |
| **Amseru / Timing** | Di-frys |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Amh - diweddariad er gwybodaeth |
| **Risg / Risk** | Mae'r papur yn gysylltiedig â'r risgiau corfforaethol canlynol:<br><br>**Pobl a sgiliau** - methu â chaffael neu gadw arbenigedd a chymysgedd sgiliau mewn meysydd allweddol, gan arwain at anallu i gyflawni rhai swyddogaethau. Mae angen amser ar gyn gweithlu'r CIC a dechreuwyr newydd i addasu i ffyrdd newydd o weithio a allai effeithio ar effeithlonrwydd a chyflawni.<br><br>**Dull cenedlaethol** - methu â gwreiddio dull cenedlaethol, sy'n arwain at ddiffyg dealltwriaeth, systemau sydd wedi'u cynllunio'n wael, ac aneffeithlonrwydd mewn systemau.<br><br>**Disgwyliadau'r cyhoedd a rhanddeiliaid** - ni ellir bodloni disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch ansawdd y gwasanaeth, gan arwain at effaith enw da - beirniadaeth, bylchau mewn gwasanaeth a diffyg hyder a'r angen am newid pellach.<br><br>Mae hefyd yn cyd-fynd ag **Archwaeth Risg AR8** - archwaeth eiddgar i helpu ein pobl i wneud pethau'n wahanol ac yn well. |
| **Cyllid / Finance** | Mae ymholiadau cychwynnol wedi nodi cyfanswm cost o tua £76,000, er bod rhaid nodi na ellir penderfynu ar gost bendant nes bod sawl dyfynbris wedi cael eu derbyn a'u gwerthuso fel rhan o'r |

| | |
|---|---|
| | broses dendro ffurfiol. Gellir talu'r gost hon o fewn y gyllideb dysgu a datblygu a ddyrannwyd.<br><br>Roedd angen penderfyniad y Bwrdd er mwyn symud ymlaen â'r gwaith hwn. Tynnodd y Bwrdd y penderfyniad hwn allan o'r pwyllgor ym mis Tachwedd 2023 i gynnal ymarfer tendr. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol/Corporate Plan Objective / Amcan Rhaglen/Programme Objective** | Blaenoriaeth 06: Datblygu ein pobl, denu pobl newydd a chefnogi eu cynnwys yn ein gwaith. |
| **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant / Equality, diversity and inclusion** | Amherthnasol ar y cam hwn. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☐<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☐ |
| **Cymeradwyaeth/ Approval/Clearance** | Prif Weithredwr |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions** | Trafodwyd hyn a darperir diweddariadau mewn cyfarfodydd blaenorol Tîm Arwain a'r Bwrdd. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Christopher Davies — Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>Angela Mutlow — Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Dyddiad / Date** | 2 Ionawr 2024 |

| **Cefndir / Background** |
|---|
| Gofynnwyd am gymeradwyaeth gan y Bwrdd ym mis Tachwedd (allan o'r pwyllgor) i gynnal ymarfer tendr ffurfiol i fynd i'r afael â bylchau sgiliau a gwybodaeth a nodwyd a achoswyd gan gylch gwaith estynedig Llais (i gynnwys gofal cymdeithasol yn ogystal ag iechyd) a recriwtio staff newydd ar raddfa fawr i'r sefydliad ers ei sefydlu. |

Fel rhan o hyn, mae angen rhaglen ddysgu graidd arnom sy'n canolbwyntio ar feithrin ein hymwybyddiaeth a'n dealltwriaeth o'r sector gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'n hyder a'n cymhwysedd i weithio mewn gwahanol ffyrdd i adlewyrchu anghenion pobl a chymunedau sydd angen gofal a chymorth yn y sector hwn. Bydd y rhaglen ddysgu hefyd yn cael ei chyflwyno i'n gwirfoddolwyr. Mae'r rhaglen yn cynnwys:

- ymwybyddiaeth gofal cymdeithasol cyffredinol
- gwerthoedd craidd y sector gofal cymdeithasol
- diogelu
- cefnogi cleientiaid ag ystod o anghenion ac amodau
- sicrhau ecwiti, a
- thrin cwynion.

Bydd y dysgu yn cael ei gyflwyno fel model hybrid gyda sesiynau rhithwir a sesiynau wyneb yn wyneb. Mae buddsoddi yn natblygiad ein pobl yn hanfodol fel offeryn denu a chadw effeithiol ac mae'n unol â'r awydd i ddenu, cadw a datblygu ein pobl er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau i bobl sy'n byw yng Nghymru.

## Manylion / Detail

Er mwyn i ni allu dechrau cyflwyno'r rhaglen ddysgu allweddol hon yn 2023-2024, fe wnaethom symud ymlaen i gaffael y rhaglen sy'n canolbwyntio ar wirfoddolwyr. Mae'r rhaglen dysgu gwirfoddolwyr wedi'i dyfarnu fel rhan o broses 'aml-ddyfyniad', a hwyluswyd gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, i Practice Solutions Cyf.

Bydd y rhaglen ddysgu yn dechrau ym mis Ionawr 2024 a bydd yn dod i ben erbyn diwedd Mawrth 2024. Bydd yr ail gam sy'n ymwneud yn benodol â'n staff, bellach yn destun proses dendro ar wahân, a hwyluswyd eto gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae manyleb ddiwygiedig, yn cynnwys cwestiynau technegol a gofynion sgorio wedi'i pharatoi a'i chyflwyno i'r tîm caffael. Mae'r broses dendro ar y gweill a bydd y cyswllt yn cael ei ddyfarnu erbyn diwedd mis Ionawr/dechrau Chwefror 2024. Bydd y rhaglen ddysgu yn rhedeg dros gyfnod o ddeunaw mis.

Er mwyn sbarduno datblygiad strategaeth a rhaglen dysgu a datblygu sy'n cefnogi ein strategaeth a'n cynlluniau sy'n dod i'r amlwg, rydym wedi ymgysylltu â gwasanaethau arweinydd rhaglen dysgu a datblygu dros dro (tan fis Mawrth 2024). Mae ffocws cychwynnol ei gwaith yn ymgorffori adolygiad ac ailgynllunio o'n fframwaith gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad, rhaglenni dysgu a datblygu, trefniadau sefydlu ac arfyrddio, a system arfarnu perfformiad personol.

LLAIS
Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care



| |
|---|
| Rydym yn integreiddio ein ffocws ar les i'r holl drefniadau hyn fel rhan o raglen gymorth a llesiant gwell i'r gweithlu. |